



# Family and Childcare Trust

Creating a family friendly UK

## Ymholiadau cymhleth a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru *Duncan Lugton*



|                                                |   |
|------------------------------------------------|---|
| <b>Cynnwys</b>                                 |   |
| Cyflwyniad                                     | 3 |
| Cefndir yr ymchwil                             | 4 |
| Y Cefndir Statudol                             | 4 |
| Beth yw ymholiad cymhleth?                     | 5 |
| Beth sy'n creu ymateb da i ymholiad cymhleth?  | 5 |
| Gwersi allweddol a meysydd ar gyfer gweithredu | 7 |
| Diolchiadau                                    | 9 |
| Llyfryddiaeth                                  | 9 |

---

## Cyflwyniad


Amcangyfrifir bod y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru yn ateb rhyw 76,000 o ymholiadau bob blwyddyn. (Lugton, Rutter, & Stocker, 2014) Gall y rhain amrywio o gwestiynau cyffredin ynghylch manylion cyswllt meithrinfa leol i geisiadau llawer mwy cymhleth gan rywun ynghylch cefnogaeth ar gyfer angen addysgol arbennig neu anabledd penodol.

Mae'r adroddiad yn bwrw goleuni newydd ar beth yn union yw ymholiadau 'cymhleth'. Mae'n amlygu'r gwaith mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ei wneud, a'r gwerth y gallant ei ychwanegu trwy ymatebion llwyddiannus, yn ogystal ag archwilio hyd a lled yr arbenigedd sy'n angenrheidiol i ymateb. Mae'r adroddiad hefyd yn rhannu rhai enghreifftiau o arfer gorau, ac yn edrych ar sut mae sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo i'r dyfodol.

Mae ymholiadau cymhleth yn haeddu sylw am nifer o resymau. Maen nhw'n enghreifftiau o waith mwyaf heriol a chreadigol y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, ac yn darparu croestoriad o holl feysydd gwaith gwahanol y Gwasanaethau hynny. Maen nhw'n aml yn achosion sy'n ymwneud â theuluoedd arbennig o ddifreintiedig a allai – os nad ymdrinnir â hwy'n effeithiol – arwain at lefelau uwch o angen yn y man. Yn olaf, mae edrych ar ymholiadau cymhleth yn rhoi gwell syniad i ni o'r ystod o ganlyniadau i rieni a theuluoedd y gall gwaith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd eu cefnogi.

Mae gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru rai nodweddion pwysig sy'n berthnasol i'w dull o ymdrin ag ymholiadau cymhleth. O'i gymharu â Lloegr, mae gan gyfran lawer uwch o'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru eu llinellau ffôn penodedig eu hunain, yn hytrach na rhannu llinellau brys cyffredinol awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu rhif 0300 cenedlaethol sy'n cysylltu galwyr â'u Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd agosaf. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru hefyd yn darparu mwy o gyngor wyneb yn wyneb na'u cymheiriaid yn Lloegr (19 y cant o'i gymharu â 10 y cant). (Lugton, Rutter, & Stocker, 2014) Fel y gwelwn, mae cyswllt hygyrch ac uniongyrchedd cymharol y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru yn allweddol er mwyn ymateb yn effeithiol i ymholiadau cymhleth.

Dengys y ffigur isod yr ystod eang o bynciau sy'n cael eu cwmpasu gan ymholiadau i'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru. (Lugton, Rutter, & Stocker, 2014). Gofal plant yw'r elfen unigol fwyaf arwyddocaol, ond gelwir ar Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i gynorthwyo gyda nifer fawr o feysydd. Yn aml gall ymholiadau cymhleth drawstorri pob un o'r gwahanol feysydd gwaith hyn, a mwy.



## Cefndir yr ymchwil

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn defnyddio dadansoddiad o astudiaethau achos a ddarparwyd gan nifer o Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru mewn ymateb i gais am enghreifftiau o 'ymholiadau cymhleth'. Drwy edrych ar yr astudiaethau achos hyn, cafwyd darlun cliriach o sut dylem ni ddeall y term 'ymholiad cymhleth', a chafwyd cipolwg ar rai o nodweddion cylchol ymholiadau cymhleth a'r gwaith mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ei wneud yn y maes hwn. Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu ar ganllawiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a gwaith ymchwil a wnaed yn flaenorol gan yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant.

## Y Cefndir Statudol

Deddfwriaeth a chanllawiau sy'n pennu gweithgareddau craidd y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru, er bod peth hyblygrwydd o ran pa wasanaethau bydd pob Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd penodol yn eu darparu, ac ym mha ffurf. Ceir trosolwg o hyn yn Neddf Gofal Plant 2006 a'r canllawiau cysylltiedig, yn arbennig '*Darparu Gwybodaeth o Safon i Deuluoedd gyda'n gilydd*' (Llywodraeth Cymru, 2014).

Mae angen cymorth ychwanegol ar rai rieni i gael hyd i ofal plant, er enghraifft, rhai sydd â phlant anabl. Yr enw ar yr help ychwanegol hwn yw broceriaeth gofal plant, ac yn Lloegr, mae'r canllawiau statudol yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i wneud hynny. (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF), 2008) Er nad oes diffiniad o froceriaeth gofal plant yn y canllawiau, fe roddir enghreifftiau: gellir helpu rhieni i ehangu eu meini prawf wrth chwilio am ofal plant, neu gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd helpu rhieni trwy gysylltu â darparwyr eu hunain i holi ynghylch eu haddasrwydd i blentyn ag anghenion ychwanegol. (Rutter & Stocker, 2014).

Nid yw darparu broceriaeth yn gyfreithiol ofynnol yng Nghymru. Ond gellir diffinio nifer sylweddol o'r ymatebion i ymholiadau cymhleth fel 'broceriaeth' o'r math yma.

Yn 2009, canfu gwerthusiad o'r Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gan y Llywodraeth fod teuluoedd yn gosod gwerth arbennig ar y gefnogaeth hon, sef broceriaeth gofal plant. (Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF), 2009)

---

## Beth yw ymholiad cymhleth?

Mae llawer o wahanol fathau o ymholiadau cymhleth; ni fydd unrhyw ddiffiniad yn addas i bob achos. Ond fel arfer bydd un neu fwy o'r elfennau canlynol yn bresennol:

- Materion na fydd pobl yn holi'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eu cylch yn aml (neu ar lefel o fanylder sy'n anghyffredin).
- Materion nad ydynt yn gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n unig â gofal plant neu gefnogaeth ariannol gyda gofal plant
- Materion y mae eu datrys yn cynnwys gweithgareddau sydd y tu hwnt i ffyrdd 'arferol' neu 'sefydledig' o weithio
- Cyfeirio ymlaen at wasanaethau/sefydliadau eraill sy'n galw am wybodaeth/farn benodol gan weithiwr proffesiynol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
- Materion sy'n cynnwys gwaith amlasiantaeth gyda gweithiwr proffesiynol Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cydlynu, yn hytrach na chyfeirio ymlaen yn unig
- Ymholiadau sy'n cynnwys cwestiynau neu faterion lluosog
- Ymholiadau lle nad oedd cwpas/natur yr anghenion a'r gefnogaeth yn gwbl amlwg ar unwaith i'r person a wnaeth yr ymholiad

---

## Beth sy'n creu ymateb da i ymholiad cymhleth?

Mae angen amser ar gyfer y math o sgwrs neu weithredu a all ddatrys ymholiad cymhleth. Gall fod angen peth amser ar bobl i deimlo'n gyfforddus ac yn rhydd i siarad am rai materion; gallai gymryd peth amser i nodi neu egluro rhai anghenion; ac mae olrhain hynt materion gyda gweithwyr proffesiynol eraill, asiantaethau neu ffynonellau gwybodaeth yn galw am amser gweithiwr proffesiynol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n ymwneud â'r achos.

*"Cyfeiriwyd mam at swyddog broceriaeth y GGD oherwydd ei bod yn cael trafferth dod o hyd i ofal plant addas ar gyfer ei mab 3 oed oedd ag anghenion ychwanegol, y dyrannwyd lle iddo mewn darpariaeth blynnyddoedd cynnar. Drwy weithio gydag Addysg Gynnar a meithrinfa breifat leol, gwnaed addasiadau, ac roedd modd i'w mab dderbyn gofal di-fwlch yn y feithrinfa breifat. Rhoddwyd cefnogaeth i'r fam hefyd i'w helpu i gael hyd i gymorth ariannol gan y coleg i dalu am ofal plant i'w mab a'i merch hŷn oedd yn mynd i glwb ar ôl ysgol. Roedd y fam yn dal i gael trafferth cyrraedd y coleg mewn pryd oherwydd anghenion gwahanol ei phlant yn y bore, a bu broceriaeth y GGD yn cysylltu â'r tiwtor coleg er mwyn caniatáu amser ychwanegol iddi yn y bore ar gyfer anghenion ei phlentyn. "*

Wrth ymateb i ymholiadau cymhleth, mae gweithwyr proffesiynol Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn defnyddio ystod eang o sgiliau a gwybodaeth. Ym mhob achos, mae angen bod ganddynt empathi a sgiliau pobl er mwyn annog pobl i siarad yn agored am faterion, gwybod sut mae gwneud i bobl deimlo'n gysurus, a gwybod sut mae gofyn cwestiynau wedi'u targedu er mwyn canfod anghenion. Yn dibynnu ar a yw'r ymholiad yn un wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu electronig,

bydd arnynt angen sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig da, y gallu i ddehongli iaith y corff a mynegiant yr wyneb, a sgiliau ffôn da. Mae hefyd yn hanfodol gwybod sut a phryd mae gofyn cwestiynau dilynol a all, mewn rhai achosion, gyffwrdd â materion anodd, a sut mae canfod ac ymdrin yn sensitif ag unrhyw wybodaeth gamarweiniol neu bryderon a allai fod gan y sawl sy'n gwneud yr ymholiad.

Wrth ymateb i unrhyw ymholiad, mae angen y canlynol ar weithiwr proffesiynol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd:

- gwybodaeth helaeth am ofal plant a gwasanaethau cysylltiedig
- gwybodaeth am y gyfraith a'r pethau y gellir eu hawlio
- gwybodaeth gefndir am y math o heriau mae teuluoedd yn eu hwynebu
- gwybodaeth am wasanaethau a sefydliadau cymorth perthnasol, yn lleol neu'n genedlaethol (bydd hyn yn aml yn galw am wybodaeth ynghylch polisïau, rhaglenni a gweithdrefnau penodol)
- gwybodaeth am ffynonellau gwybodaeth ychwanegol yn achos yr achosion mwy heriol
- gwybodaeth leol benodol, er enghraifft, am ysgolion, cyfleusterau hamdden lleol a busnesau

*“Fe gawson ni alwad gan fam sydd â merch 16 oed â nam ar ei golwg, oedd am gael cefnogaeth i'w helpu i fod yn fwy annibynnol. Fe roeson ni wybodaeth iddi am Gynllun Byw'n Annibynnol Barnardo's a'i chyfeirio atyn nhw.”*

I gymhwyso'r wybodaeth hon yn llwyddiannus, bydd angen i'r gweithiwr proffesiynol feddwl yn ochrol a datrys problemau, gyda chryn dipyn o brofiad, greddf a gallu proffesiynol i farnu ynghylch anghenion a sefyllfaoedd pobl. Ar ben hynny, mae angen dyfalbarhad a sgiliau ymchwil i ateb cwestiynau heriol, ac weithiau mae angen sgiliau pobl i sicrhau cefnogaeth neu gymorth sefydliadau eraill. Mewn llawer o achosion, mae perthnasoedd a chysylltiadau proffesiynol staff y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn hanfodol i'r broses hon o sicrhau gwybodaeth a chefnogaeth – boed hynny oddi mewn i'r awdurdod lleol neu gan sefydliad allanol.

Yn achos rhai ymholiadau cymhleth, yn hytrach na chyfeirio ymlaen yn syml at ffynonellau eraill o gefnogaeth, mae gweithwyr proffesiynol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cyflawni rôl gydlynw fwy penodol, gan fod yn gyfrifol am y rhyngweithio ag asiantaethau eraill. Mewn achosion eraill, gallai gweithiwr proffesiynol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd fynd allan a threfnu elfen benodol o gefnogaeth eu hunain, ar gyfer y plentyn neu'r teulu dan sylw. Mewn un achos y clywsom amdano, llwyddodd aelod o staff y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ddarbwyllio siop trin gwallt i ganiatáu i blentyn ag anabledd difrifol ymgyfarwyddo â'r siop trwy gynnal sawl ymweliad cyn ei hapwyntiad. Mae'r mathau hyn o achosion yn enghraifft gref o agwedd 'alluogol' y staff, a'u bod yn barod i deithio'r filltir ychwanegol oherwydd eu hymrwymiad i ethos a gwaith y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

*“Fe wnaeth mam gysylltu â ni oherwydd ei bod yn pryderu bod ei merch yn cael ei bwlio yn yr ysgol. Fe wnaethon ni sicrhau'r fam y byddem ni'n cysylltu â'r ysgol i sicrhau bod y pennaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa. Cafodd y fam gyfarfod yn yr ysgol, ac roedd hi a'i merch yn llawer hapusach wedyn.”*

Daw ystod o fanteision yn sgîl y gwaith mae staff Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ei wneud yng nghyswllt ymholiadau cymhleth. Mae'r cysylltiadau cryf rhwng y Gwasanaethau Gwybodaeth ac asiantaethau a gwasanaethau eraill yn golygu eu bod yn gallu gwneud atgyfeiriadau a chysylltu pobl â ffynonellau cefnogaeth na fyddent o reidrwydd wedi'u cyrchu fel arall. Maent yn gallu defnyddio'u gwybodaeth i ganfod ac ymdrin â phroblemau a allai osgoi sylw, neu na fasant o bosib yn destun gweithredu mewn mannau eraill. Mewn rhai achosion, mae hyn yn caniatáu i staff y Gwasanaeth Gwybodaeth weithredu fel llwybr pwysig 'wrth gefn' ar gyfer nodi problemau gyda phlant neu deuluoedd, ac fel sianel amgen ar gyfer cyfeirio gwahanol fathau o gefnogaeth at deuluoedd. Gall hyn olygu bod modd i bobl dderbyn cefnogaeth er nad ydynt o reidrwydd wedi'u nodi fel rhan o weithrediad arferol y gwasanaethau hynny. Mewn nifer o achosion, mae agwedd 'alluogol' aelod o staff wedi helpu i ddatrys mater oedd heb gysylltiad uniongyrchol â gwaith y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.

*"Mewn digwyddiad allgymorth, fe wnaethon ni gwrdd â mam yr oedd gan ei merch nifer o anghenion arbennig. Nid oedd y fam yn gwybod am y grŵp chwaraeon a chymdeithasu lleol ar gyfer teuluoedd plant ag anghenion arbennig. Roedd ganddi ddiddordeb yn y grwpiau cefnogi a'r elusennau y gallem ei chyfeirio atynt. Wedi hyn, llwyddodd y fam i wneud cais am grant gofal plant, fel ei bod yn gallu cyrchu gofal seibiant iddi hi ei hun (gan nad oedd yn gweithio) a dywedodd wrthym ei bod yn llawer hapusach o ganlyniad."*

Mae angen ystod o adnoddau i ymateb yn llwyddiannus i ymholiadau cymhleth. Mae angen amser ar y staff i gael sgwrs iawn gyda phobl er mwyn sicrhau nad ydynt yn colli dim a'u bod yn gallu dod i ddeall y broblem yn iawn. Mae angen cefnogaeth a hyfforddiant ar y staff hefyd i ddatblygu sgiliau pobl, er mwyn sefydlu cydberthynas lwyddiannus gyda'r bobl y maen nhw'n siarad â hwy. Er mwyn i'r staff fedru cyrchu gwybodaeth yn effeithiol, mae angen eu hyfforddi mewn sgiliau ymchwil/cyfrifiadurol. Mae angen amser ar staff hefyd i 'ddarllen' am eu pwnc, ac i fynychu digwyddiadau allanol lle gallan nhw gwrdd â gweithwyr proffesiynol eraill, rhannu arfer gorau a dysgu mwy am wasanaethau cysylltiedig. Yn olaf, mae angen cefnogaeth ac anogaeth ar y staff i deimlo eu bod wedi'u grymuso, ac i fod yn ddigon hyderus i weithredu'n rhagweithiol a mynd 'y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir'.

---

## **Gwersi allweddol a meysydd ar gyfer gweithredu**

Er nad yw'n gyfreithiol ofynnol i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ddarparu broceriaeth gofal plant yng Nghymru, y mae angen am y math hwn o wasanaeth, ac mae llawer o Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru yn darparu rhywbeth tebyg. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen gwirioneddol am y math hwn o gefnogaeth a'r ymrwymiad ymhlith Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i ymdrin â'r materion hyn. Yn Lloegr, mae llawer o ymholiadau cymhleth yn cael eu cwmparu gan ofyniad 'broceriaeth gofal plant'.

*"Cysylltodd benyw â'r gwasanaeth i ddweud bod ganddi blentyn 5 oed sydd ag anhwylder rheoli twf, a bod angen dillad llawer mwy o faint o ganlyniad. Oherwydd bod y teulu'n wynebu anawsterau ariannol, gofynnodd y rhiant a allai GGD helpu i gael hyd i ddillad. Gwnaeth y GGD ymholiadau helaeth gyda sawl gwasanaeth ac asiantaeth arall, ac anfon negeseuon e-bost yn gofyn am help i'r fenyw hon."*

*Llwyddodd y GGD i helpu'r fenyw, oedd wrth ei bodd gyda'r gefnogaeth, ac a ddywedodd y byddai wedi bod mewn trafferthion hebddi."*

Mae ymholiadau cymhleth yn rhoi syniad clir o sut mae gwaith y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, wrth gefnogi teuluoedd, yn aml yn ymestyn y tu hwnt i darparu gwybodaeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig, a hynny'n unig, â gofal plant a chymorth ariannol mewn perthynas â hynny. Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn ganolog i lawer o amcanion strategol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'n ofynnol bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn gwneud y canlynol:

- Cyfrannu at iechyd a llesiant plant, a hybu teuluoedd cryf, cadarnhaol
- Gweithredu "fel elfen allweddol o dimau amlasiantaeth" (megis y Tîm o Gwmpas y Teulu) sy'n rhan o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Lledaenu gwybodaeth i rieni a gofawyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a chysylltu rhieni ac ymarferwyr yn yr ardaloedd hyn
- Cefnogi teuluoedd trwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf trwy hybu cydlyniant gwasanaethau gwybodaeth ar lefel leol
- Cefnogi'r Strategaeth Tlodi Plant trwy helpu rhieni i gael swyddi, gwella sgiliau rhieni a gofawyr a phobl ifanc ar aelwydydd incwm isel, yn ogystal â lleihau anghydraddoldeb ymhlith y grwpiau tlotaf
- Rhoi gwybodaeth i rieni'n rheolaidd ynghylch diwygio lles a budd-daliadau, a'r pethau y gellir eu hawlio.

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar y groesffordd rhwng amrywiaeth o wahanol asiantaethau a strategaethau, ac mae hynny'n golygu, mewn llawer o achosion, bod y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd mewn sefyllfa unigryw o addas i ddod ag amrywiol sefydliadau at ei gilydd. Mae hyn yn caniatáu i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd nodi anghenion teuluoedd cyn darparu cefnogaeth yn uniongyrchol neu ddarparu atgyfeiriad effeithiol, wedi'i dargedu'n briodol, i asiantaeth arall.

Gan fod y strategaethau hyn yn ymwneud â nifer o wahanol anghenion – sy'n amrywio o wella sgiliau rhieni a gofawyr i gyfrannu at iechyd plant – gallai Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ymwneud â chynorthwyo gydag amrywiaeth eang o wahanol faterion, a helpu pobl sydd ag amrywiaeth o wahanol anghenion.

Er mwyn datblygu gwaith y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn y maes hwn, mae'n bwysig cydnabod lefel y mewnbwn sy'n ofynnol i ateb ymholiad cymhleth, a faint o werth sy'n cael ei gynhyrchu pan gaiff ymholiad o'r fath ei ddatrys yn llwyddiannus. Mae angen sicrhau ymwybyddiaeth barhaus o bwysigrwydd hyfforddi a datblygu staff, ac ymrwymiad parhaus i gynnal capasiti Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd i gynnal sgysiau gyda phobl sydd ag ymholiadau cymhleth. Mae gan y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru gryfderau unigryw o ran eu lefel uchel o gyswllt wyneb yn wyneb; y llinellau ffôn penodol a ddarperir ganddynt; yn ogystal â gwybodaeth a chysylltiadau sylweddol ag asiantaethau eraill. Mae'r cryfderau hyn, sy'n hanfodol er mwyn ymateb yn llwyddiannus i ymholiadau cymhleth, yn haeddu cael eu diogelu a'u hyrwyddo.



---

## Diolchiadau

Carai'r awdur ddiolch i'r holl Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru, a roddodd mor hael o'u hamser, ac a gyflwynodd astudiaethau achos o ymholiadau cymhleth. Heb y cymorth hwn, ni fuasai'r ymchwil yn bosibl.

---

## Llyfryddiaeth

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF). (2008). *Duty to provide information, advice and assistance*. Llundain: DCSF.

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF). (2009). *Family Information Services: evaluation of services provided*. DCSF: Llundain.

Lugton, D., Rutter, J., & Stocker, K. (2014). *The work of Family Information Services in Wales in 2014*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant.

Rutter, J., & Stocker, K. (2014). *The Work of Family Information Services in England 2013/14*. Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant.

Llywodraeth Cymru. (2014). *Darparu Gwybodaeth o Safon i Deuluoedd gyda'n gilydd: Dogfen gyfarwyddyd ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yng Nghymru*.



# Family and Childcare Trust

Creating a family friendly UK

**Ffôn** 020 7940 7520

**E-bost** [info@familyandchildcaretrust.org](mailto:info@familyandchildcaretrust.org)

The Bridge  
81 Southwark Bridge Road  
London, SE1 0NQ

[familyandchildcaretrust.org](http://familyandchildcaretrust.org)

[@FamChildTrust](https://twitter.com/FamChildTrust)

[facebook.com/famchildtrust](https://facebook.com/famchildtrust)

[youtube.com/famchildtrust](https://youtube.com/famchildtrust)